



Student Academic Reps
Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr

Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

LLYFRYN (YNRYCHIOLYDD ACADEMAIDD MYFYRWYR 2017/18 RHAGLENNI YMCHWIL

Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd



CYNNWYS

3. Eich Rôl fel Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr
4. Flwyddyn i Ddod – dyddiadau pwysig i'w cofio
5. Neges o Is Lywydd Ôl-raddedig, Is Lywydd Addysg ac Is Lywydd Parc y Mynydd Bychan
6. Eich Tîm Llais Myfyrwyr
7. Sut mae'r strwythur coleg yn edrych ym Mhrifysgol Caerdydd?
8. Hyfforddiant
9. Nodau Cynrychiolwyr
10. Sut mae'r strwythur adborth Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn gweithio?
11. Paneli Myfyrwyr Staff
12. Rôl Cadeirydd ac Ysgrifennydd Paneli Staff Myfyrwyr
13. Byrddau Astudio / Fforwm Cynrychiolwyr Ôl-raddedig Ymchwil / Esbonio Fforymau Coleg
14. Gwobrau Cyfoethogi Bywydau Myfyrwyr
15. Wythnos Siarad
16. Gwella eich Profiad Academaidd/ Siarter y Myfyrwyr
17. Cyngor i Fyfyrwyr / Cefnogaeth i Fyfyrwyr / Cefnogaeth i Fyfyrwyr Rhwyngwladol / Cymorth Mathemateg
18. Mae bod yn Gynrychiolydd yn Gwella eich CV!
19. Geirfa a Byrffodau

Cyflwyniad gan Yr Athro Amanda Coffey

Mae Prifysgol Caerdydd yn falch iawn o'r bartneriaeth gref sydd ganddo â chorff y myfyrwyr. Mae gennym draddodiad hir o gynrychiolaeth myfyrwyr yn y Brifysgol, fel un o'r ffyrdd rydym yn gweithio gyda a dros myfyrwyr. Mae'r system Cynrychiolaeth Academaidd yn golygu fod myfyrwyr o bob rhaglen ym mhob ysgol yn cael dweud eu dweud ar eu haddysg a phrofiad ehangach y myfyriwr a sut gall ei wella.

Mae Cydlynwyr Cynrychiolaeth Academaidd â rôl allweddol yn sicrhau fod y system cynrychiolwyr myfyrwyr yn fecanwaith effeithiol o astudio ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Cydlynwyr hefyd yn gwneud yn siŵr fod y system

Gynrychiolwyr yn cael ei diwnio ar gyfer bob Ysgol ac ar draws pob rhaglen. Diolch i chi am gymryd rôl mor bwysig.



YR ATHRO AMANDA COFFEY

Dirprwy Is-ganghellor Profiad Myfyrwyr
a Safonau Academaidd

EICH RÔL FEL CYNRYCHIOLYDD ACADEMAIDD MYFYRWYR

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau y caiff llais y myfyrwyr ei glywed a'i ystyried o ddifrif ar bob lefel. Mae Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr yn chwarae rhan hanfodol yn hyn drwy fynd i gyfarfodydd Paneli Myfyrwyr-Staff mewn Ysgolion a gweithredu fel cyswllt rhwng aelodau o staff a'u cyd-fyfyrwyr. Eich gwaith chi yw dweud wrth yr Ysgol a'r Brifysgol beth mae myfyrwyr yn ei hoffi a ddim yn hoffi am Brifysgol Caerdydd fel ein bod yn gallu parhau i wneud y pethau mae myfyrwyr yn hoffi a gwella ar y pethau nad ydynt yn hoffi. Heb eich adborth, nid ydym yn gallu newid pethau er gwell.

Mae disgwyl i chi:

- Gwneud eich hyn yn hysbys ac ar gael i'r myfyrwyr rydych yn eu cynrychioli.
- Casglu barn a safbwyntiau ystod eang o fyfyrwyr.
- Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer myfyrwyr ar faterion sy'n ymwneud â'ch cwrs a chyfleusterau.
- Cyfeirio myfyrwyr at wybodaeth am wasanaethau a gynigir ym Mhrifysgol Caerdydd.
- Rhoi adborth i fyfyrwyr am yr effaith y mae llais myfyrwyr wedi'i gael a sut mae hyn wedi arwain at welliannau yn eich ysgol.

Gweithio gyda'ch ysgol

Mae pob ysgol wedi penodi aelod o staff sy'n ymgymryd â rôl fel Cydlynwyr Cynrychiolwyr Myfyrwyr. Y cydlynnydd fydd y pwynt cyswllt cyntaf am yr holl Gynrychiolwyr yn eich hysgol ac fe fyddant yn hapus i'ch helpu gydag unrhyw ymholiadau neu gwestiynau am eich rôl. Maent yn gallu:

- Trefnu Paneli Staff Myfyrwyr
- Trefnu hysbysfwrdd penodol, yn cynnwys gwybodaeth am Baneli Staff Myfyrwyr
- Danfon negeseuon e-bost ar eich rhan
- Trefnu cyfarfodydd gyda staff allweddol yr ysgol

- Darparu cyngor ar brosiectau a syniadau sydd gennych
- Trefnu amser i wneud cyhoeddiadau achlysurol ar ddechrau a diwedd darlithoedd.

Os nad ydych yn gwybod pwy yw eich Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr, cysylltwch â **StudentReps@Caerdydd.ac.uk** neu swyddfa eich ysgol!

Nid oes disgwyl i chi ddelio â:

- Anghydfodau rhwng myfyrwyr a staff academiaidd e.e harasio, gwahaniaethu ac erledigaeth.
- Gweithdrefnau ffurfiol e.e. methiannau arholiadau, apeliadau academiaidd, gwrandawiadau unigol, amgylchiadau arbennig.
- Ymholiadau ariannol a chyllid.
- Problemau lles, iechyd a materion personol e.e. tai, cyflogaeth, mewnfudo.

Os yw myfyrwr yn dod atoch â phroblem ac nad ydych yn siŵr ble y dylent fynd, cysylltwch â'r Is Lywydd Addysg, y Tîm Llais Myfyrwyr neu'r Cydlynwyr Cynrychiolwyr Myfyrwyr am arweiniad. Dewch heibio 3ydd llawr yr Undeb, e-bostiwch ni ar **StudentReps@Caerdydd.ac.uk** neu ewch i swyddfa eich ysgol.



DYDDIADAU PWYSIG I'W COFIO

Cyfnod Etholiadau 1:

Hydref 9fed – 20fed

Cyfnod Hyfforddiant 1:

Hydref 16eg – Tachwedd 3ydd

Cynhadledd Cynrychiolwyr:

Hydref 28ain

Eleni byddwn yn cynnal Cynhadledd Cynrychiolwyr gyda gwahanol sesiynau hyfforddi rhyngweithiol i'ch helpu gael y gorau allan o'ch rôl fel cynrychiolydd!

Hyfforddiant Cadeirydd ac Ysgrifennydd:

Hydref 23ain – Tachwedd 3ydd

Bydd y Tim Llais Myfyrwyr yn cynnig hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer Cadeiryddion ac Ysgrifenyddion, ar sut i gynnal a chofnodi Paneli Staff Myfyrwyr, a sut i reoli cofnodion yn effeithiol.

Wythnos Siarad:

Chwefror 5ed – 9fed

Ymgrych blynyddol Undeb y Myfyrwyr yw Wythnos Siarad i gasglu adborth gan fyfyrwyr. Cwblhawyd dros 2,910 o gardiau Wythnos Siarad llynedd! Ni fyddai hyn wedi digwydd heb ymroddiad ein gwirfoddolwyr a'r cydweithrediad gyda chydweithwyr ar draws y Brifysgol. Gall eich Ysgol gynnal Wythnos Siarad yn eich ardal, neu fel arall, yn gallu helpu recriwtio gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn mannau arall.

Cyfnod Etholiadau 2: Chwefror 5ed – 9fed

Cyfnod Hyfforddiant 2: 5ed – 16eg Mawrth

Cyfnod Etholiadau 3: 16eg – 20fed Ebrill

Cyfnod Hyfforddiant 3: 23ain – 27ain Ebrill

Fforymau Coleg

Mae'r Fforymau Coleg yn cynnwys holl Gadeiryddion Paneli Staff Myfyrwyr ar lefel Is-raddedig ac Ôl-raddedig a Addysgit i drafod materion nad oes modd eu datrys ar lefel

Ysgol. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu trefnu gan Undeb y Myfyrwyr gyda staff allweddol y Brifysgol yn mynychu gan gynnwys y Dirprwy Is-ganghellor dros Brofiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd, Deon y Coleg yn ogystal â chynrychiolwyr o TG a Llyfrgelloedd

Fforwm Coleg ar gyfer Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol:

Tachwedd 29 – 15:00 – 17:00

Chwefror 1 13:00 - 15:00

Mawrth 21 – 13:00 – 15:00

Fforwm Coleg ar gyfer Biowyddorau a Gwyddorau Bywyd:

Tachwedd 29 – 12:30 - 14:30

Chwefror 1 15:30 - 17:30

Mawrth 14 – 13.00 – 15:00

Fforwm Coleg ar gyfer Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg:

Tachwedd 28 – 13:00 – 15:00

Ionawr 30 – 15:00 - 17:00

Mawrth 14 – 15.30 - 17:30

Fforwm Cynrychiolwyr Ôl-raddedigion Ymchwil :

Mae'r Fforwm hwn yn agored i holl fyfyrwyr Ôl-raddedig Ymchwil. Yn yr un modd â'r Coleg, gall y cynrychiolwyr godi materion sydd heb gael eu datrys ar lefel Ysgol. Mae'r cyfarfod hwn yn cael ei drefnu gan Undeb y Myfyrwyr.

30 Awst – 13.00 – 15.00

Tachwedd 22 – 13:00 – 15:00

Ionawr 24 – 13.00 – 15:00

Mawrth 21 – 15:30 – 17:30

Mehefin 6ed – 13:00 – 15:00

NEGES GAN IS LYWYDD MYFYRWYR ÔL-RADDIEDIG

Llongyfarchiadau ar ddod yn Gynrychiolydd Ôl-raddedig ymchwil!

Rwyf wedi bod yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd am 4 blynedd, a dwi'n treulio fy mhumed blwyddyn fel eich Is Lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig. Rwyf yn cynrychioli myfyrwyr ôl-raddedig, boed os rydych ar raglen ymchwil neu addysgu. Fe wnes i raddio gyda gradd mewn Gwleidyddiaeth o Brifysgol Caerdydd yn 2016, ac rwyf wedi ymgymryd â gradd Meistr mewn Gwleidyddiaeth a Pholis Cyhoeddus. Fe wnes i redeg i fod eich Is Lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig oherwydd roeddwn am roi hwb i brofiad ôl-raddedig ym Mhrifysgol Caerdydd.

Dyma rai o 'm blaenoriaethau ar gyfer 2017/18:

- Sicrhau eglurder ar gyflogau a hawliau myfyrwyr PhD sy'n dysgu
- Cynyddu manau astudio ôl-raddedig ac amseroedd agor
- Gwella cyngor ariannol ac academiaidd ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser.

Mae bod yn gynrychiolydd yn gyfle gwych, ac yn rhoi'r cyfle i chi chwarae rôl gweithgar yn llunio'r profiad ôl-raddedig drwy ymgysylltu â'ch cyd-gyfoedion, yr Undeb a'r Brifysgol. Mae eich cyfraniad yn amhrisiadwy, ac rydym eisiau eich adborth ar beth gallwn ei wneud i'ch helpu chi gyda'ch hastudiaethau, a gwneud eich profiad yng Nghaerdydd yn un bythgofiadwy. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi, ac mae fy nrws bob amser ar agor ar drydydd llawr Undeb y Myfyrwyr.

Pob lwc, a welai chi cyn bo' hir!

JAKE



Neges gan IL Addysg

Mae bod yn gynrychiolydd myfyrwyr yn chwarae rôl bwysig wrth lunio pwy rydych chi a beth gallwch chi fod. Byddwch yn sicr yn tyfu ac yn ennill gymaint o sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn eich helpu chi yn ystod eich hastudiaethau a'ch dyfodol. Fel y gwnaeth i mi! Rwyf yn gwerthfawrogi eich amser felly gwnewch yn mwyaf o'r daith hon. Mae eich gwaith yn hanfodol yn newid eich addysg er gwell! Mae'r pwyntiau sy'n cael eu codi yn y Panel Staff Myfyrwyr yn cael eu defnyddio i lunio cyfeiriad a dyfodol profiad ein myfyrwyr. Felly, gwrandewch i'ch cyd-fyfyrwyr a lleisiwch eu barn! Gadewch i ni weithio arno gyda'n gilydd! #DwinGwrando #GwneudIddoDdigiwydd

Neges gan IL Parc y Mynydd Bychan

Rôl IL Parc y Mynydd Bychan yw cynrychioli myfyrwyr Campws Parc y Mynydd Bychan, a'r rheini sy'n defnyddio adnoddau y Mynydd Bychan. Dwi'n cynrychioli holl faterion, o addysg a lles i chwaraeon a chymdeithasau a llawer mwy. Dwi'n gweithio gyda swyddogion sabothol eraill i wneud yn siŵr eich bod yn cael eich cynrychioli ac i wella eich amser yn y Brifysgol, beth bynnag yw'r mater.

Mae corff myfyrwyr cryf yn gallu arwain at brofiad gwell i fyfyrwyr y Mynydd Bychan. Mae'n wych beth gallwn ei gyflawni fel grŵp myfyrwyr a dwi'n edrych ymlaen at glywed eich holl syniadau chi!

EICH TÎM LLAIS Y MYFYRWYR

Llongyfarchiadau ar ddod yn Gynrychiolydd Ôl-raddedig ymchwil! Rydym yma i roi cyngor a'ch cefnogi chi fel eich bod yn gallu cynrychioli'r myfyrwyr ar eich cwrs. Mae'r gwaith rydym yn ei wneud yn cwmpasu ystod eang o feysydd o Gynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr (israddedig ac ôl-raddedig) i etholiadau'r Undeb, o ymgyrchoedd i waith polisi. Rydym yn dylunio a chyflwyno eich hyfforddiant, fel eich bod yn barod i gyflawni eich rôl. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn y Brifysgol i gynnal y system ansawdd academiaidd ac rydym yn annog ymgysylltiad myfyrwyr ar bob lefel o wneud penderfyniadau yn y Brifysgol.

Drwy gydol y flwyddyn fe fyddwch yn derbyn e-byst a chyfathrebu oddi wrthym ni, yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau a chyfleoedd allweddol y Brifysgol. Rydym yn cynnal pethau fel Wythnos Siarad a'r Gwobrau Cyfoethogi Bywydau Myfyrwyr. Yn ystod Wythnos Siarad llynedd fe dderbyniom 2,910 o gardiau (yn cynnwys 6,885 o sylwadau) gan fyfyrwyr yn awgrymu ffyrdd o wella'r Brifysgol! Yn y Gwobrau Cyfoethogi Bywydau Myfyrwyr rydym yn cydnabod gwaith caled ein staff a myfyrwyr sy'n helpu i wella profiad myfyrwyr.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi, a gallwch ddod i'n gweld ni ar Drydydd Llawr Undeb y Myfyrwyr ym Mhlas y Parc neu cysylltwch â ni:



StudentReps@Caerdydd.ac.uk



029 2078 1423 / 434



@cu_studentvoice



cardiffstudents.com/ reps



SUT MAE'R STRWYTHUR (OLEG YN EDRYCH YM MHRIFYSGOL (AERDYDD?

(OLEG Y (ELFYDDYDAU, Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL:

- Busnes
- Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth
- Daearyddiaeth a Chynllunio
- Hanes, Archaeoleg a Chrefydd
- Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol
- Y Gyfraith
- Ieithoedd Modern
- Cerddoriaeth
- Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Y Gwyddorau Cymdeithasol
- Cymraeg
- LEARN

(OLEG Y GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A BYWYD:

- Biowyddorau
- Deintyddiaeth
- Y Gwyddorau Gofal Iechyd
- Meddygaeth
- Optometreg a Gwyddorau'r Golwg
- Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol
- Seicoleg
- Deoniaeth Cymru (Addysg Feddygol a Deintyddol Ôl-raddedig)

(OLEG Y GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG:

- Pensaerniaeth
- Cemeg
- Cyfrifiadureg a Gwybodeg
- Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr
- Peirianneg
- Mathemateg
- Ffiseg a Seryddiaeth



HYFFORDDIANT

Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnig hyfforddiant cynhwysfawr i holl Gynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr, boed os rydych wedi bod yn eich rôl am ychydig o flynyddoedd neu'n newydd i'r swydd. Bydd hyfforddiant eleni yn digwydd mewn tair rhan arbennig:

Hydref 16eg – Tachwedd 3ydd
5ed – 16eg Mawrth
23ain – 27ain Ebrill

Bydd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn lleol a ddim yn para mwy nag awr. Bydd y sesiynau yn cwmpasu egwyddorion sylfaenol o fod yn Gynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr, cysylltiadau defnyddiol, sut i gasglu adborth, sut i ddelio â phryderon myfyrwyr a gwaith grŵp i wella eich sgiliau datrys problemau.


Byddwn hefyd yn cynnal Cynhadledd Cynrychiolwyr!

Bydd ein Cynhadledd Cynrychiolwyr yn gyfres gynhwysfawr o weithgareddau a gweithgareddau i'ch hyfforddi chi yn y modd gorau posib ar gyfer y flwyddyn i ddod. Byddwn yn cynnal rhai sesiynau ar wahân yn targedu'r sgiliau fydd angen arnoch fel cynrychiolydd, ac a fydd yn ddefnyddiol ar gyfer eich cwrs a'ch CV!

Bydd Cynhadledd Cynrychiolydd 2017 ar Hydref 28ain.

Bydd mwy o wybodaeth am y Gynhadledd yn cael ei ddanfôn yn agosach i'r amser, felly cadwch golwg ar eich e-byst!

Os rydych am wirio pryd mae'r hyfforddiant yn digwydd yn eich Ysgol, neu am wybod mwy am yr hyfforddiant rydym yn ei ddarparu, e-bostiwch **studentreps@Caerdydd.ac.uk**.



NODAU CYNRYCHIOLYDD

Crëwyd y system Nodau Cynrychiolydd i amlinellu eich prif gyfrifoldebau a thracio eich cynnydd drwy gydol y flwyddyn. I dderbyn tystysgrif Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr a derbyn cydnabyddiaeth am eich ymdrechion fel Cynrychiolydd, mae'n rhaid i chi brofi eich cyflawniadau fel y nodir yn y daflen Nodau Cynrychiolydd.

Mae yna bum maes allweddol yn cael eu campws yn y Nodau Cynrychiolwyr:

PARATOI AM Y RÔL

Mae hyn yn cynnwys hyfforddi, darllen y llawlyfr, mynychu sesiwn datblygu sgiliau, ymgyfarwyddo eich hun gyda'ch dangosfwrdd NSS, Siarter y Myfyrwyr a ffigurau Croeso i Gaerdydd, yn ogystal â chwrdd a'ch Cydlynnydd Cynrychiolwyd Myfyrwyr.

DYLETSWYDDAU'R RÔL

Mynychu lleiafswm o 2 Panel Staff Myfyrwyr, mynychu Fforwm Coleg (os rydych yn Gadeirydd), mynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol (CCB) Undeb y Myfyrwyr, mynychu Senedd Myfyrwyr, cael cyfarfod â Llais Myfyrwyr, paratoi'r agenda ar gyfer eich Paneli Staff Myfyrwyr (Cadeirydd ac Ysgrifennydd yn unig), cwblhau'r cofnodion ar gyfer eich Paneli Staff Myfyrwyr mewn amser rhesymol.

YMGYSYLLTIAD

Mynychu Cynhadledd Cynrychiolwyr, gwirfoddoli yn Wythnos Siarad, ymgeisio am Bwyllgor Gwaith Addysg, Ol-raddedig a Pharc y Mynydd Bychan, cymryd rhan mewn Adolygiad Cyfnodol, neu Adolygiad a Gwelliant Blynnyddol, cynnal prosiect Ysgol.

CYFATHREBU

Cyfathrebu eich presenoldeb ar eich cwrs, sefydlu grŵp Facebook, siarad mewn darlithoedd, tystiolaeth o ddefnyddio adborth myfyrwyr, cyfathrebu gyda'ch cymdeithas yn seiliedig ar gwrs, e-bostio a gweithio gyda Llais Myfyrwyr.

MYFYRIO/ADBORTH

Cwblhau'r Arolwg Cynrychiolwyr Myfyrwyr, ysgrifennu adroddiad yn myfrio ar sut mae'r blwyddyn yn mynd, enwebu eraill am Wobr Cyfoethogi Bywydau Myfyrwyr, cael eich enwebu ar gyfer Gwobr Cyfoethogi Bywydau Myfyrwyr.



SUT MAE'R STRWYTHUR ADBORTH CYNRYCHIOLWYR MYFYRWYR YN GWEITHIO?



MYFYRWYR



PRIFYSGOL

CYNRYCHIOLWYR



(OLEG

YSGOL



UNDEB Y MYFYRWYR PRIFYSGOL CAERDYDD

ESBONIO PANELI STAFF MYFYRWYR

Mae Paneli Staff Myfyrwyr yn gyfarfodydd lle mae Cynrychiolwyr Academiaidd Myfyrwyr a staff o fewn eich Ysgol yn mynychu. Diben y cyfarfodydd yw sgwrsio am faterion sy'n effeithio eich cwrs a phrofiad addysgol cyffredinol. Mae disgwyl i chi fynychu'r cyfarfodydd hyn gydag adborth gan eich cyd-fyfyrwyr.

Bydd agenda a chofnodion yn cael eu danfon cyn y cyfarfod. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi paratoi ar gyfer eitemau'r agenda. Mewn cyfarfodydd dilynol mae'n bwysig eich bod yn meddwl am bwyntiau gweithredu, efallai bydd yn rhaid i chi wneud rhywbeth ar gyfer eich Ysgol ar gyfer y Panel Staff Myfyrwyr nesaf.

Cadarnhaol Vs Negyddol

Er ei fod yn bwysig i chi feirniadu eich Ysgol a Phrifysgol, mae hefyd yn bwysig i chi roi adborth am y pethau cadarnhaol hefyd. Mae angen i Ysgolion wybod beth mae myfyrwyr yn ei fwynhau am eu cwrs fel eu bod yn gallu gwella'r profiad myfyrwyr.

Bydd eich Paneli Staff Myfyrwyr yn cwrdd o leiaf unwaith y semester a bydd eich Ysgol yn darparu cynllun blynyddol o gyfarfodydd y bydd yn rhaid i chi fynychu ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd. Cadwch y dyddiadau yma'n rhydd ac os nad ydych yn gallu mynychu yna siaradwch â'r Cadeirydd o flaen llaw, a gofynnwch am yr agenda a phapurau yn gynnar fel eich bod yn gallu rhannu sylwadau arnynt.

Peidiwch â gadael mater tan y Panel Staff Myfyrwyr nesaf!

Gall rai faterion aros tan gyfarfod ffurfiol megis Panel Staff Myfyrwyr, ni all rai eraill. Os oes mater brys mae'n werth ei godi gydag aelod o staff cyn y cyfarfod. Cofiwch: rydych yn Gynrychiolydd Myfyriwr a dylech sicrhau eich bod yn cynrychioli barn y mwyafrif, nid i rhai sy'n bersonol i chi. Ni ddylech drafod aelodau staff unigol, myfyrwyr unigol na chwynion personol. Os bydd materion fel hyn, siaradwch â'ch Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr neu, fel arall, gallwch gysylltu ag Undeb y Myfyrwyr.

RÔL (ADEIRYDD AC YSGRIFENNYDD PANELI STAFF MYFYRWYR

Bydd gan bob Panel Staff Myfyrwyr Gadeirydd ac Ysgrifennydd, bydd y ddau yn fyfyrwyr fel arfer. Mae ganddyn nhw rôl bwysig iawn yn sicrhau bod y cyfarfodydd panel yn cael eu rhedeg yn effeithlon, yn sicrhau bod camau o'r cyfarfod yn cael eu neilltuo ac yn cael eu darparu o fewn amserlen benodol.

Mae'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth clir o beth ddigwyddodd yn y cyfarfod blaenorol, a beth fydd yn digwydd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Mae gan y Cadeirydd nifer o rolau:

- Cyn y cyfarfod maent yn gosod yr agenda a phenderfynu pwy i'w gwahodd i'r cyfarfod.
- Yn ystod y cyfarfod ei hun bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod popeth ar amser, yn aros yn annibynnol ac yn sicrhau bod pob aelod o'r panel yn cael y cyfle cyfartal i siarad.
- Eu rôl yw crynhoi'r pwyntiau a wnaed gan aelodau'r cyfarfod, yn ogystal â phenodi pwyntiau gweithredu i aelodau penodol o'r cyfarfod neu'r grŵp cyfan.
- Yn dilyn y cyfarfod mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am wirio cofnodion yr ysgrifennydd a gosod y dyddiad ar gyfer y panel nesaf.



Yr Ysgrifennydd sy'n cofnodi:

- Maent yn cymryd cofnodion y cyfarfod a llogi ystafell ar gyfer y cyfarfod.
- Sicrhau y gwahoddir cyfranogwyr priodol.
- Cyn y cyfarfod bydd yr Ysgrifennydd yn rhannu'r cofnodion o'r cyfarfodydd blaenorol.
- Yn ystod y Paneli fe fyddant yn gwneud cofnodion ac yna, teipio'r cofnodion, eu danfon i aelodau'r cyfarfod.
- Ar ôl y cyfarfod fe fyddant yn danfon y cofnodion i'r Cydlynwyr Cynrychiolwyr Myfyrwyr o fewn dwy wythnos ar ôl y cyfarfod.



BYRDDAU ASTUDIO

Anfonir cofnodion y Paneli Staff Myfyrwyr at Undeb y Myfyrwyr drwy Ysgrifennydd y cyfarfod. Dylid hefyd ddanfod y cofnodion at Fyrddau Astudio. Mae Byrddau Astudio yn gyfarfodydd ffurfiol a gynhelir gan eich Ysgol i 'sichrau cydlynad bob mater academiaidd a gweinyddol sy'n gysylltiedig â rhaglenni astudio a addysgir'. Mae'r cyfarfodydd hyn yn llawer mwy ffurfiol ac mae Pennaeth yr Ysgol a staff priodol yn mynychu.

Mae cynrychiolaeth myfyrwyr yn amrywio o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan, mae Cadeirydd y Paneli Staff Myfyrwyr yn mynychu fel cynrychiolydd myfyrwyr. Mae'r materion sy'n cael eu trafod yn y cyfarfodydd hyn yn cynnwys: meini prawf derbyn, dulliau asesu, cynnwys a'r cwricwlwm.

Fforwm Cynrychiolwyr Ôl-raddedigion Ymchwil

Mae'r Fforwm yn agored i holl Gynrychiolwyr Academiaidd Ôl-raddedig Ymchwil ar draws Prifysgol Caerdydd, yn cael eu hwyluso gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a'u cadeirio gan Is Lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig, Jake Smith. Diben y cyfarfodydd yw trafod unrhyw faterion ar lefel Ysgol, Coleg neu Brifysgol sy'n effeithio cymuned ôl-raddedigion ymchwil.

Bydd yr Is Lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig yn gwahodd staff priodol o'r Brifysgol i'r cyfarfod. Mae trafodaethau yn y gorffennol wedi amrywio o addysgu ac arddangos tâl ar gyfer Ymchwilwyr Ôl-raddedig, i SIMS a monitro cynnydd i gyflwyniadau ôl-raddedigion.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn ffordd wych i ddarganfod beth sy'n digwydd ar draws y Brifysgol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r fforwm anfonwch e-bost at **studentreps@Caerdydd.ac.uk**.



Fforymau Coleg

Fel y gwyddoch mae yna dri Fforwm Coleg gwahanol – Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol, Gwyddorau Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd, a Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynrychioli barn y myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yn cael eu haddysgu, gyda cadeiryddion Paneli Staff Myfyrwyr.

Mae pob fforwm yn digwydd tair gwaith y flwyddyn ac yn cael eu cynnal gan Undeb y Myfyrwyr. Mae Cadeiryddion y Paneli yn bresennol (neu gynrychiolwyr) gyda'r swyddog sabothol priodol, Is Ganghellor Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academiaidd, cynrychiolwyr llyfrgell a TG, Deon Coleg ar gyfer Addysg a Myfyrwyr, ac aelodau staff Prifysgol.

Mae'r materion sy'n cael eu trafod yn y Fforwm Coleg fel arfer yn broblemau na ellir eu datrys ar lefel lleol ac angen sylw pellach. Mae'r cyfarfodydd hyn yn hanfodol i roi adborth myfyrwyr i strwythurau'r Coleg.

GWOBRAU (YFOETHOGI BYWYDAU MYFYRWYR (G(BM)

Am nifer o flynyddoedd mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, mewn partneriaeth â'r Brifysgol, wedi trefnu'r Gwobrau Cyfoethogi Bywydau Myfyrwyr. Sefydlwyd y Gwobrau i gydnabod gwaith caled myfyrwyr a staff sydd yn gwella profiad myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae categorïau yn amrywio o Diwtor Personol y Flwyddyn, Cynrychiolydd Academiaidd Myfyrwyr y Flwyddyn gyda'r seremoni gwobrwyd ddiwedd Ebrill/dechrau Mai.

Fel diolch bach gan Undeb y Myfyrwyr, mae bob aelod o staff sy'n derbyn enwebiad yn derbyn cwpan am ddim, gyda bag te am ddim! Dyma ffordd Undeb y Myfyrwyr i gydnabod gwaith caled aelodau staff a'u ymroddiad i'w rôl – yn dangos bod myfyrwyr wir yn gwerthfawrogi eu cyfraniad.

Mae'r Gwobrau wedi'u rhannu'n dri cham:

1. Ymgyrch hyrwyddo ac enwebiadau
2. Llundio rhestr fer a gwahoddiadau
3. Noson Wobrwyd

Eleni, bydd Llais Myfyrwyr yn canolbwyntio i wella cyhoeddusrwydd y Gwobrau, ymestyn y cyfnod enwebu dros nifer o fisoedd a hyrwyddo'r enwebiadau ar draws y Brifysgol. Byddwn angen eich help yn hyrwyddo'r Gwobrau i'ch ffrindiau cwrs – dyma eich cyfle i gydnabod myfyrwyr a staff sy'n gweithio y tu hwnt i alwad eu dyletswydd.



WYTHNOS SIARAD

Mae Wythnos Siarad yn ymgyrch blynyddol sy'n cael ei redeg gan Undeb y Myfyrwyr. Diben yr ymgyrch yw i gasglu adborth gan y boblogaeth myfyrwyr a defnyddio'r adborth hwnnw i wella profiad myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Cestglir yr adborth drwy fyfyrwyr yn llenwi cardiau Wythnos Siarad, sy'n gofyn iddynt ddatgan eu cwrs a grŵp blwyddyn, ac os ydynt yn Israddedig, Ol-raddedig Ymchwil neu Ol-raddedig a addysgir.

Yn 2014, casglwyd dros 300 o gardiau Wythnos Siarad ar draws y Brifysgol. Yn 2017, casglwyd 2,910 o gardiau a 6,885 sylw unigol. Ni allai hyn fod wedi digwydd heb waith caled gwirfoddolwyr myfyrwyr a'r ysgolion academiaidd a helpodd Undeb y Myfyrwyr i hyrwyddo Wythnos Siarad!

Mae'r Undeb y Myfyrwyr yn edrych drwy data Wythnos Siarad ac yn darparu dadansoddiad ar gyfer y Brifysgol i weithio ar bryderon myfyrwyr.

Ar ôl casglu'r data, mewn partneriaeth gyda'r Brifysgol, dyma rhai o lwyddiannau Wythnos Siarad (hyd yn hyn!):

- Estynnwyd oriau agor yr ASSL i 24 awr yn ystod y tymor
- Cyfleusterau talu â cherdyn ar gyfer arlwyyo'r Brifysgol ac ar draws y campws
- Cyhoeddir amserlenni arholiadau bythefnos yn gynt nag o'r blaen
- Wi-fi ar draws y campws wedi gwella.

Os hoffech wirfoddoli i helpu gyda Wythnos Siarad, neu yn dymuno edrych ar y data, e-bostiwch **studentreps@Caerdydd.ac.uk**.

Byddem yn eich annog i gymryd rhan oherwydd mae'n gyfle gwych i ymgysylltu â'ch ffrindiau cwrs, mae'n fath gwahanol o gasglu gwybodaeth ac mae angen pobl angerddol a brwdfrydig i yrru'r ymgyrch.



GWELLA EICH PROFIAD ACADEMAIDD

Ar draws y Brifysgol mae yna nifer o brosesau ffurfiol sy'n dod o dan gylch gwaith sicrwydd ansawdd. Caiff y Brifysgol ei arwain gan y QAA (Quality Assurance Agency) i sicrhau bod y cyrsiau sy'n cael eu haddysgu o safon dda. Mae Undeb y Myfyrwyr yn gofyn i wirfoddolwyr awyddus i ymuno â'r 'Pwll Cynrychiolwyr' i gymryd rhan mewn prosesau sicrwydd ansawdd.

Mae'r prosesau hyn yn cynnwys:

- **Adolygiad a Gwelliant Blynnyddol** – yn dadansoddi beth sydd angen i newid neu wella ym mhob Ysgol academiaidd. Cyfarfodydd myfyrwyr yn cael eu cynnal ddechrau Tachwedd.
- **Adolygiad Cyfnodol** – mae hyn yn adolygiad eang o holl raglenni Ysgol, yn gwerthuso eu cyfeiriad strategol ac adlewyrchu ar brofiadau eu myfyrwyr. Mae hyn yn digwydd ar sail cylchdro ar gyfer pob Ysgol bob pum mlynedd.
- **Panelli Cymeradwyo Rhaglen** – mae'r rhain yn gyfarfodydd a grëwyd i gymeradwyo rhaglenni newydd yn cael eu cyflwyno mewn Ysgol Academiaidd, neu newidiadau i raglenni presennol.

Siarter y Myfyrwyr

Mae ein Siarter Myfyrwyr wedi'i ddatblygu fel partneriaeth ac yn diffinio rolau a chyfrifoldebau ni i gyd: myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol. Mae ein Siarter yn esbonio beth gallwch ddisgwyl gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr a beth sydd i'w ddisgwyl gennych chi. Fel Cynrychiolydd Academiaidd Myfyrwyr, mae'n bwysig i chi wybod beth yw'r disgwyliadau hyn a beth mae myfyrwyr yn gallu gwneud os nad yw'r Brifysgol yn cyrraedd eich disgwyliadau.

Ceir wyth cymuned, i gyd gyda gwybodaeth ddefnyddiol a chysylltiadau â gwasanaethau cysylltiedig sydd angen i chi wybod amdanynt tra eich bod chi yng Nghaerdydd. Os nad yw pethau'n bodloni eich disgwyliadau gallwch ddefnyddio'r wefan fel canllaw i'r camau cymryd y dylech gymryd. Nid yw Siarter y Myfyrwyr yn uchelgeisiol; gallwch ddisgwyl yr holl wasanaethau wedi'u amlinellu yn Siarter y Myfyrwyr. Cofiwch, mae disgwyliadau arnoch chi hefyd. Dylech bob amser geisio:

- Codi materion yn gynnar a gofyn am gyngor os na chaiff rhain eu datrys;
- Hysbysu'r Brifysgol yn brydlon o unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau;
- Rhannu eich pryderon os yw eich profiad yng Nghaerdydd yn cael ei effeithio arno gan ymddygiad cyd-fyfrwyr a staff;
- Gofyn am gyngor yn syth os yw eich cynnydd academiaidd, neu unrhyw agwedd arall o'ch profiad Caerdydd, yn achosi pryder i chi.

CYNGOR I FYFYRWYR

Mae'r Ganolfan Cyngor i Fyfyrrwyr yn rhoi cyngor a gwybodaeth annibynnol, eiriolaeth, cynrychiolaeth a chymorth drwy wasanaeth cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i aelodau Undeb y Myfyrwyr. Gallwch alw heibio, trefnu apwyntiad, e-bostio neu ffonio'r tîm. Mae'r gwasanaeth yn cynnal gweithgareddau a digwyddiadau eraill hefyd i ddatblygu ymwybyddiaeth o hawliau a chyfrifoldebau ac i hybu iechyd a lles y myfyrwyr.

Mae'r canlynol yn wasanaethau y gall y Tîm Cyngor eich helpu gyda, felly fel cynrychiolydd, nid oes yn rhaid i chi. Os cysylltir â chi am unrhyw un o'r materion hyn, danfonwch nhw at Cyngor i Fyfyrrwyr.

- Materion Academiaidd – mae hyn yn cynnwys apeliadau academaidd, cyngor ar ymddygiad myfyrwyr, newid i'ch cwrs/tererau ac amodau, amgylchiadau esgusodol, adolygu yn ystod Ramadan, Cyngor i Fyfyrrwyr, Arfer Annheg
- Iechyd a Lles – iechyd rhywiol
- Tai – gwirio contractau tai, anghydfod gyda landlordiaid, rhestrau tai ayb.

Angen Cyngor?

- Dewch i ymweld â Trydydd Llawr Undeb y Myfyrwyr i siarad â Chynghorydd Cyngor i Fyfyrrwyr.
- **(Yn ystod y tymor)** Mae ein sesiynau galw heibio ddydd Llun i Gwener **12:00 - 14:00**
- Gellir trefnu apwyntiadau rhwng **10:00 – 16:00**
- Ffoniwch **02920 781410**
- **Campws y Mynydd Bychan:** Mae sesiynau cyngor a apwyntiadau yn y Mynydd Bychan ar gael bob ddydd Llun. Er mwyn trefnu apwyntiad, ffoniwch ni ar **02920 781410** neu llenwch y ffurflen Ymholiad ar-lein: **cardiffstudents.com/advice**

Cefnogaeth i Fyfyrrwyr

Mae ein staff yn y Canolfannau Cefnogi Myfyrwyr yma i gynnig cyngor a chymorth cyfrinachol i chi yn ôl yr angen. Eich pwynt cyswllt cyntaf gyda'r Ganolfan Cefnogi Myfyrwyr bydd drwy un o'u Cynghorwyr Pwynt Ymholi

unai yn ein Canolfan Cathays (50 Plas y Parc a Thrydydd Llawr Undeb y Myfyrwyr) neu Barc y Mynydd Bychan (Ail Lawr Tŷ Aberteifi). Efallai y byddant yn gallu ateb eich ymholiad yn syth, neu eich cyfeirio i'r cyfeiriad cywir i gael y gwybodaeth sydd angen arnoch, o gyfarfod gyda chynghorwr neu cwnselydd unai yn ein sesiynau galw heibio, neu drwy apwyntiad os oes angen.

I ddarganfod mwy: ewch i: **cardiff.ac.uk/studentsupport/**

Cymorth i Fyfyrrwyr Rhyngwladol

Mae'n rhaid cyfeirio bob ymholiad am FISAS neu broblemau yn ymwneud â myfyrwyr yn dod o dramor i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd i Gymorth i Fyfyrrwyr Rhyngwladol. Maent wedi'u lleoli yn y Ganolfan Graddedigion, ar Drydydd Llawr Undeb y Myfyrwyr. Eu oriau agor yw 09:00 - 17:00 ar ddyddiau'r wythnos.

Cymorth Mathemateg

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Mathemateg ar gael i holl fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd ac wedi'i ddylunio i gynorthwyo rheini sydd eisiau cymorth ychwanegol gyda'u sgiliau Mathemateg. Maent yn cynnig cymorth un-wrth-un neu grŵp bach, sesiynau galw heibio anffurfiol a hyblyg a mynediad i amrywiaeth o adnoddau dysgu.



MAE BOD YN GYNRYCHIOLYDD YN GWELLA EICH (V!

Bydd ymgymryd â rôl Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr yn edrych yn wych ar eich CV. Yn y rôl byddwch yn dysgu nifer o sgiliau gan gynnwys:

- **Siarad cyhoeddus**
- **Gwneud penderfyniadau**
- **Gwaith tîm**
- **Sgiliau pwyllgor**
- **Datrys problemau**
- **Arweinyddiaeth**
- **Sgiliau cyfathrebu**
- **Sgiliau cyflwyno**

Gallwch ddatblygu'r sgiliau hyn i gyd drwy fynychu sesiynau'r Gwasanaeth Datblygu Sgiliau, yn seiliedig ar Ail Lawr Undeb y Myfyrwyr, Plas y Parc. Gallwch ddewis o amrywiaeth o unedau gan gynnwys sgiliau cyflwyno i negodi, o bendantrwydd i briffio tîm. Ceir amrywiaeth o gyrsiau ardystiedig mewnol ac allanol a diplomâu i ddewis ohonynt.

 CardiffSDS  @SDScardiff
 SDS@Caerdyddac.uk
 02920781489



Gellir cofnodi eich holl oriau gyda Gwirfoddoli Caerdydd! Ewch i'w swyddfeydd ar Ail Lawr Undeb y Myfyrwyr neu cysylltwch â nhw drwy'r manylion isod.



GEIRFA A BYRFODDAU

Adolygiad a Gwelliant Blynnyddol – proses sicrwydd ansawdd sy'n sicrhau bod Ysgolion yn cael eu dal i gyfrif am y penderfyniadau maent yn gwneud.

Byrddau Astudiaeth – cyfarfodydd ffurfiol gyda Phenaethiaid Ysgol ag aelodau staff priodol i drafod materion gweinyddol ac academiaidd sy'n ymwneud â rhaglenni a ddarperir o fewn yr Ysgol.

Swyddogion Ymgrych – grŵp o 10 myfyriwr sy'n cael eu hethol bob blwyddyn i gynrychioli grwpiau penodol. Mae'r rhain yn swyddi gwirfoddol a gymerwyd ochr yn ochr ag astudiaethau'r Swyddogion. Mae'r swyddi yn cynnwys: Swyddog Croenddu a Lleiafrifoedd Ethnig, Swyddog y Gymraeg, Swyddog Myfyrwyr Hŷn, Swyddog Moesegol ac Amgylcheddol, Swyddog Myfyrwyr ag Anableddau, Swyddog Iechyd Meddwl, Swyddog LHDT+ (Agored), Swyddog LHDT+ (Merched), Swyddog Merched a Swyddog Myfyrwyr Rhyngwladol.

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd (UMPC) – sefydliad sy'n annibynnol o'r Brifysgol sy'n cynrychioli barn myfyrwyr Caerdydd. Mae'r Undeb yn cynnig gwasanaethau cynrychiolaeth, gweithgareddau allgyrsiol, nosweithiau allan, tripiâu diwrnod a gwaith rhan amser. Byddwch yn dod yn aelod o'r Undeb yn syth ac yn gallu defnyddio unrhyw wasanaeth sydd ar gael.

Fforymau Coleg – cyfarfodydd lle mae Cadeiryddion Paneli Staff Myfyrwyr, cynrychiolwyr y Brifysgol a'r Undeb yn mynychu i siarad am bryderon colegau mewn natur ar y cyd.

Adolygiad Cyfnodol – dadansoddiad eang o ysgolion academiaidd sydd yn digwydd bob pum mlynedd i sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yng nghod ansawdd y QAA.

Cynrychiolydd Ôl-raddedig Ymchwil – myfyriwr gwirfoddol Ôl-raddedig Ymchwil sy'n

cynrychioli barn, cwestiynau a sylwadau eu cyd-fyfyrwyr.

Fforymau Cynrychiolwyr Ôl-raddedig Ymchwil – cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan Is Lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig, yn agored i holl Gynrychiolwyr Ôl-raddedig Ymchwil ar draws y Brifysgol, lle drafodir materion ar lefel Ysgol, Coleg neu Brifysgol.

Swyddogion Sabothol – grŵp o saith myfyriwr sy'n cael eu hethol bob blwyddyn i gynrychioli barn Myfyrwyr Caerdydd. Mae'r swyddi hyn yn derbyn tâl ac wedi'u rhannu mewn i saith maes gwahanol: Llywydd, Is Lywydd Addysg, Is Lywydd Lles, Is Lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig, Is Lywydd Parc y Mynydd Bychan, Is Lywydd Cymdeithasau ac Is Lywydd Chwaraeon.

Cynrychiolydd Academiaidd Myfyrwyr – myfyriwr sy'n gwirfoddoli sy'n cynrychioli barn, cwestiynau a sylwadau eu cyd-fyfyrwyr.

Cyngor i Fyfyrwyr – gwasanaeth cyngor annibynnol sydd wedi'i leoli yn Undeb y Myfyrwyr, ar gael i holl fyfyrwyr Caerdydd. Mae'r tîm yn darparu arweiniad ar faterion academiaidd, cwynion defnyddwyr, tai a mwy.

Cefnogaeth i Fyfyrwyr – gwasanaeth y Brifysgol sydd wedi'i leoli yn 50 Plas y Parc a Thrydydd Llawr Undeb y Myfyrwyr sy'n cynnig cronfeydd caledi, cyngor cyffredinol, cefnogaeth rhyngwladol a gwasanaethau cwnsela.

Panel Staff Myfyriwr – cyfarfodydd gyda Chynrychiolwyr Academiaidd Myfyrwyr a staff yr Ysgol i drafod materion sy'n effeithio corff y myfyrwyr ar lefel lleol. Mae disgwyl i chi fynychu'r cyfarfodydd hyn yn eich rôl.

DARGANFYDDWCH MWY



CARDIFFSTUDENTS.COM/REPS



STUDENTREPS@CAERDYDD.AC.UK



@CU_STUDENTVOICE